

'Nid ysgrifennu cynhwysol yw dyfodol yr iaith Ffrangeg.'

Dychmygwch beth a fyddai'r ymateb petai Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru yn datgan rhywbeth i'r perwyl uchod am y Gymraeg hithau. Diau y byddai ymddiheuriad yn ddisgwyliedig, ond tybed hefyd a allai'r adwaith cyhoeddus anochel arwain at ymddiswyddiad neu ddiswyddiad hyd yn oed?

Eto i gyd, nid datganiad rhyw benboethyn o Ffrancwr eithriadol fel y cyfryw sydd uchod, eithr cyfieithiad o eiriau Jean-Michel Blanquer, neb llai na Gweinidog Addysg Ffrainc ar y pryd. A beth a sbardunodd y datganiad cryf hwn gan M'sieur Blanquer yn Nhachwedd 2021? Yn syml, un gair bach, sef *iel* - neu, yn fwy penodol, benderfyniad geiriadur *Le Petit Robert* i gynnwys y rhagenw newydd hwn o fewn ei gloriau, sy'n wahanol i'r *il* gwrywaidd a'r *elle* fenywaidd am ei fod yn niwtral o ran rhywedd.

Amia Srinivasan

'HE, SHE, ONE, THEY,
HO, HUS, HUM, ITA'

Adolygiad o WHAT'S YOUR PRONOUN?
BEYOND HE AND SHE
gan Dennis Baron (2020)
London Review of Books 42(13), 2020

Clara Cini

'L'ÉCRITURE INCLUSIVE OU
LA LONGUE QUÊTE D'UNE
LANGUE ÉGALITAIRE'
Le Monde, 5 Tachwedd 2021

Gwenllian M Awbery

Y GYMRAEG YN Y GWEITHLE
A'R DDEDDF GWAHANIAETHU
AR SAIL RHYW
Comisiwn Cyfle Cyfartal, 1997

Ond a bod yn deg â'r Gweinidog, rhaid cydnabod mai symptom o 'broblem' ehangach sydd yma yng ngolwg llawer o Ffrancwyr - gan gynnwys yr Academi Ffrengig a gyfeiriodd at y ffenomen newydd fel 'peryl marwol' (*péril mortel*) - sef datblygiad cyfres newydd o ffurfiau Ffrangeg a elwir yn *écriture inclusive* ('ysgrifennu cynhwysol'). Hyd yn oed o fewn ychydig fisoedd i'w benodi'n Weinidog Addysg, roedd ymroddiad Blanquer i orchfygu'r cynwysoldeb ymledol hwn yn gwbl glir mewn trydariat ganddo yn Nhachwedd 2017: 'Il y a une seule langue française, une seule grammaire, une seule République' ('Dim ond un Ffrangeg sydd, dim ond un gramadeg, dim ond un Wladwriaeth (Ffrengig)'). Ond peidied neb â gadael imi roi camargraff mai safbwynt amhoblogaidd a goleddir gan leiafrif o wleidyddion Ffrainc a gynrychiolir yma gan Blanquer; i'r gwrthwyneb yn wir, fel y tystia'r ffaith i fwyafrif o wleidyddion Senedd Ffrainc bleidleisio'n ddiweddar (ar 30 Hydref 2023) dros gynnig i wahardd *écriture inclusive* er mwyn 'diogelu yr iaith Ffrangeg', gyda 221 pleidlais o blaid ac 82 yn erbyn. Mwyafrif llethol felly, a hynny yng ngwlad *Liberté, Égalité, Fraternité*, cofier.

Cymraeg cynhwysol

Iwan Wyn Rees



Cyn cael golwg fanylach ar y math 'newydd' hwn o ffurfiau Ffrangeg, trown tua Chymru yn gyntaf. A fu unrhyw wrthdaro ynghylch 'dyfodol cynhwysol' i'r Gymraeg yng Ngwlad y Menig Gwynion? Mewn gwirionedd, digon digynnwrf fu'r sefyllfa yng Nghymru hyd yma o'i chymharu â'r tensynau cenedlaethol a welwyd yn Ffrainc (nid bod hynny o angenrheidrwydd yn beth drwg).

Hyd y gwn i, yr unig sefydliad i gynhyrfu'r dyfroedd go iawn yn ddiweddar, ym Mawrth 2023, oedd Eisteddfod Llangollen pan awgrymodd ei Chynhyrchydd Gweithredol ar y pryd fod angen arwyddair mwy 'cynhwysol' a chyfoes ar yr wyl ryngwladol, yn bennaf oherwydd yr ymadrodd 'byd gwyn', ond hefyd yn rhannol oherwydd y rhagenw gwrywaidd 'fo' (er mai ystyriaeth eilradd oedd yr ail). Cyfeirio'n ôl at y gair 'byd', sy'n enw gwrywaidd o safbwynt cenedl enwau, y mae'r 'fo' yn yr achos hwn, ond er gwaethaf hynny, nid ymddengys i hynny dawelu pryderon y Cynhyrchydd Gweithredol: 'We understand that there is currently no gender-neutral variant in Welsh...' oedd ei dyfarniad cyhoeddus.

Down yn ôl at gywirdeb honiad o'r fath (sydd, a bod yn deg, yn codi'n gyffredin) - un sy'n ensynio bron fod y Gymraeg yn ddiffygiol ac ar ei hól-hi yn ei hanallu i batrymu'n unfath â'r Saesneg - ond rhaid pwysleisio yma nad ymdrybaeddu yn y dadleuon tanllyd a gafwyd (ar y ddwy ochr) am arwyddair Eisteddfod Llangollen yw amcan yr ysgrif hon. Digon yw nodi yma fod y cythrwfl hwn (o bersbectif ieithydd o leiaf) yn cynnig astudiaeth achos hynod ddiddorol a chymhleth, nid yn unig o safbwynt semanteg iaith (h.y. hylifedd ystyron), ond hefyd am ei fod yn awgrymu mai ffin denau a geir weithiau rhwng dyhead (diffuant) i ddefnyddio iaith 'gynhwysol' ar y naill law a thuoddiad i arddel agweddau Eingl-ganolog (os nad

rhai trefedigaethol) tuag at gymunedau ieithyddol lleiafrifedig ar y llaw arall. Y tuoddiad hwn, ar ei waethaf, a all arwain at ystyried 'gwahaniaethau' strwythurol naturiol rhwng ieithoedd fel 'diffygion' neu 'broblemau' i'w datrys.

Yn wyneb y perygl hwn felly, yr eironi efallai yw bod tuoddiad cynyddol i gyfosod 'cynwysoldeb ac amrywiaeth' fel pe baent bob amser yn adar o'r unlliw. Ond cyhyd ag y bo cyfoeth ieithyddol lleisiau llawr ein planed yn y cwestiwn, rhaid bod yn effro i'r perygl y gall y cyntaf effeithio'n negyddol ar yr ail. Mewn geiriau eraill, gan dderbyn bod diffiniadau o 'gynwysoldeb' yn amrywio'n fawr, un her heddiw (yn enwedig mewn cymunedau dwyieithog ac amlieithog, efallai) yw sicrhau nad yw ymdrechion i roi'r cysyniad hwn ar waith yn arwain at droi amrywiaeth ieithyddol lliwgar yn unfurfiaeth lwyd.

Amcan syml yr ysgrif hon felly yw archwilio rhai datblygiadau gramadegol diweddar yn y Gymraeg a ddaeth i fod yn sgil ymdrechion i wneud y Gymraeg yn fwy cynhwysol, gan awgrymu rhai posibiliadau newydd na roddwyd

Yr eironi yw bod tuoddiad cynyddol i gyfosod 'cynwysoldeb ac amrywiaeth' fel pe baent bob amser yn adar o'r unlliw

ystyriaeth lawn iddynt hyd yma. Fel y disgwyliid, ystyrir rhai cyfraniadau pwysig gan aelodau o fudiadau ffeministaidd ac o'r grŵp LHDTC+ i drafodaethau a fu, ond dylwn bwysleisio er hynny nad wyf fy hun yn rhan o'r cymunedau hyn. Yn hytrach, *fel ieithydd* sy'n hoff o olrhain datblygiadau gramadegol yn y Gymraeg mewn modd cymharol, ynghyd ag astudio goblygiadau cymdeithasol ehangach y rheini, y byddaf yn gwyntyllu ambell syniad yn yr erthygl hon. Nid deddfu neu fesur derbynoldeb ffurfiau yw'r nod felly, ond cymell trafodaeth bellach ar natur Cymraeg cynhwysol ac awgrymu ambell drywydd pellach y gellid ei droedio pe dymunid.

Cyn manylu ar rai datblygiadau a welwyd yn ddiweddar yny Gymraeg felly, hoffwn droi yn gyntaf at adroddiad diddorol sy'n perthyn i ddiweddd y ganrif ddiwethaf, sef *Y Gymraeg yn y Gweithle a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw* (1997) o eiddo Gwenllian M Awbery ac a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal gynt. Mae'r rheswm dros ddefnyddio'r adroddiad hwn fel man cychwyn yn ddeublyg mewn gwirionedd: yn gyntaf, mae'n caniatáu inni ystyried sut y mae syniadau ynghylch Cymraeg cynhwysol wedi newid dros y degawdau diwethaf, ac yn ail, ceir rhywfaint o dir cyffredin rhwng argymhellion y cyhoeddiad hwn a rhai o'r ffurfiau 'newydd' sy'n rhan o gynigion dadleuol *écriture inclusive* y Ffrangeg. Mae cyfle yma i ddangos felly fod hyrwyddwyr cynwysoldeb yn y Gymraeg a'r Ffrangeg (er gwaethaf yr elfennau tebyg sydd rhwng strwythurau gramadegol y ddwy iaith, gan gynnwys eu systemau cenedl enwau) i'w gweld yn torri cwysi go wahanol bellach. Sut, felly, y datblygodd y gwahaniaethau hyn rhwng ein 'hen-iaith' ni a'r 'eang Ffrangeg' chwedl y bardd Ieuan ap Rhydderch o hanner cyntaf y bymthegfed ganrif?

Er mwyn gwerthfawrogi rhai o argymhellion Awbery, rhaid cofio mai 'sicrhau ieithwedd na fydd[ai] yn gwahaniaethu'n annheg ar sail rhyw' oedd pennaflod yr adroddiad hwn. Gydag osgoi camwahaniaethu rhwng merched a dynion yn greiddiol i'r briff a osodwyd felly, gellir dweud heddiw mai ystyriaethau 'deuaidd' (*binary*) sy'n llywio'r drafodaeth, er bod nifer o'r dadansoddiadau a'r heriau ieithyddol sy'n codi bellach yn berthnasol ddigon i hunaniaethau 'anneuaidd' (*non-binary*).

Gan fod llunio hysbysebion swyddi yn ystyriaeth ganolog gan Awbery, nid yw'n syndod bod cyfran helaeth o'r adroddiad wedi ei neilltuo i deitlau swyddi. Gan adeiladu ar adroddiad blaenorol a gomisiynwyd eto gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal, sef *Gender a'r Iaith Gymraeg: Arolwg Ymchwil* (1997) gan Kathryn Jones a Delyth Morris, manyla Awbery ar ddwy ffordd benodol o beidio â gwahaniaethu yn ôl rhywedd. Y 'strategaeth generig' oedd y naill, sy'n golygu datblygu termau 'niwtral' a all gyfeirio at ferched a dynion fel ei gilydd, e.e. 'ymgeisydd' a 'rheolydd' (yn hytrach na 'rheolwr' a 'rheolwraig', dyweder). Fel y 'strategaeth weledol' yr adwaenid yr ail ffordd wedyn, a golygai hynny ddefnyddio ffurfiau benywaidd >



Y Sénat

▷ a rhai gwrywaidd ochr yn ochr â'i gilydd, e.e. 'athro/athrawes' neu 'rheolwr/rheolwraig'. Yn ddiddorol ddigon, penderfyniad Awbery oedd ymgorffori elfennau o'r ddwy strategaeth hyn yn ei chasgliad o arferion da (er ei bod hefyd yn cymeradwyo dulliau eraill megis defnyddio ffurf luosog, e.e. yn 'Gwahoddir ceisiadau gan athrawon...').

O ystyried yr argymhellion hyn felly, ymddengys fod tro ar fyd wedi bod yn y Gymru Gymraeg ers 1997 o safbwynt dulliau o greu teitlau swyddi cynhwysol. Does dim amheuaeth nad oes astudiaeth academaidd fanwl i'w gwneud ar sut yn union a phryd y newidiodd pethau'n raddol, ond yr argraff gyffredinol a geir bellach yw bod enwau gwrywaidd (o ran cenedl), a gysylltid â'r rhyw wrywaidd yn unig yn draddodiadol, wedi graddol golli eu cynodiadau 'gwrywol' gan ddod i gael eu hystyried yn 'niwtral'. Yn wir, mae'n arwyddocaol yn y cyswllt hwn fod *Arddulliadur Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru* (2024), o dan yr eitem 'Cenedl geiriau, rhyw a rhywedd', yn argymhell yn ddiawmsys 'ffurfiau mwy niwtral' wrth ymdrin ag enwau sydd â gwahanol ffurfiau ar eu cyfer. Nodir, er enghraifft, y ffurf 'actor' yn unig (fel sy'n gymeradwy gan nifer yn y Saesneg bellach wrth gwrs), ond hefyd yr enw 'cyfarwyddwr' (yr ystyrir bod ei ôl-ddodiad '-wr' yn 'niwtral' o'i gymharu â'r '-wraig' gyfatebol a ystyrir yn 'benodol o ran rhyw neu rywedd').

Yn ystod y degawdau nesaf felly, diddorol fydd gweld a fydd unrhyw newid yn y consensws cyffredinol hwn. Tybed a welwn, er enghraifft, ambell grŵp ffeministaidd Cymraeg yn hawlio'r ffurfiau benywaidd yn ôl er mwyn amlygu neu ddatlu eu benywaidd-dra? Ac i ba

raddau y mae ac y bydd siaradwyr Cymraeg trawsryweddol neu anneuaid yn fodlon parhau i ystyried enwau gwrywaidd (a thraddodiadol wrywol) yn rhai 'niwtral' neu 'ddiryw'? Amser a ddengys!

G yda'r cwestiynau hynny'n hofran uwch ein pennau, rhaid croesi'r Sianel eto gan ddychwelyd at rai o gynigion *écriture inclusive* Ffrainc. Teg dweud bod y sefyllfa yno am y pegwn â'r hyn a welir yng Nghymru. 'Dans cette langue, le masculin fait le neutre' ('Yn yr iaith hon, enw gwrywaidd sy'n gweithredu fel ffurf niwtral'). Dyna eiriau diwyro Arlywydd y Wladwriaeth, ond er mor debyg yw'r datganiad i un o ganllawiau *Arddulliadur* Llywodraeth Cymru, rhaid pwysleisio mai'r hyn a wna Emmanuel Macron yma (ar adeg y bleidlais yn Senedd Ffrainc a grybwyllwyd eisoes) yw defnyddio un o reolau gramadegol y Ffrangeg (neu ei ddehongliad ef ohoni, o leiaf) er mwyn gwrthwynebu a cheisio tansilio rhai o ffurfiau 'mwy cynhwysol' yr arddull ysgrifennu newydd.

Er mwyn deall y gwrthgyferbyniad rhwng Cymru a Ffrainc o ran y modd yr ymagweddir tuag at y 'gwrywaidd generig' mewn perthynas â chynwysoldeb iaith, rhaid manylu rhywfaint ar ddatblygiad hanesyddol y ffurfiau honedig 'niwtral' hyn yn y Ffrangeg. Mewn erthygl estynedig wybodus yn *Le Monde* (5 Tachwedd 2021), dadleua Clara Cini nad rhywbeth hynafol neu gynhenid yw'r arferiad cymharol ddiweddar o ystyried ffurfiau gwrywaidd yn rhai niwtral yn y Ffrangeg. Dangosir yn hytrach mai dim ond yn yr ail ganrif ar bymtheg y dechreuodd y duedd hon, a hynny wrth i sefydlu yr Academi Ffrengig yn 1634 gyd-ddigwydd â galwadau i ddileu'r terfyniad benywaidd -esse. Felly'n

wahanol i'r disgwyl efallai, yr hyn a ddatgelir mewn gramadegau a geiriaduron Ffrangeg Canol yw bod enwau gwrywaidd a benywaidd yn cydfodoli'n esmwyth yn achos teitlau'r rhan fwyaf o swyddi yn Ffrainc yr Oesoedd Canol, cyn i ffurfiau benywaidd fel *écrivaine* 'awdures' ac *ambassadrice* 'llysgenhades' ddifflannu'n raddol o eiriaduron mwy diweddar. Yn wir, dadleua Cini yn argyhoeddiadol fod perthynas rhwng hepgor enwau benywaidd fel yr uchod a'r modd y dilëwyd merched o ddisgwrs cyhoeddus.

Dyna'r cyd-destun bras sy'n egluro pam felly y mae benywaiddio'r Ffrangeg wedi bod yn greiddiol i dair ton o ffeministaeth yn Ffrainc ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond os yw benywaiddio'r iaith (neu'n hytrach ei 'hailfenywaiddio' neu ei 'diwryweiddio' fel y dadleua rhai ers 2010) yn rhan allweddol o ddatblygu Ffrangeg mwy cynhwysol, rhaid nodi yma nad cyfodol ffurfiau gwrywaidd a rhai benywaidd traddodiadol (sef un o'r strategaethau a gymeradwywyd gan Awbery ar gyfer y Gymraeg) sy'n nodweddu'r *écriture inclusive* cyfoes.

Y norm yn hytrach yw defnyddio dotiau a chysylltnodau ynghanol geiriau, neu hyd yn oed /e mewn cromfachau, h.y. (/e). Er enghraifft, defnyddir y *sénateurs* 'seneddwyr' gwrywaidd a'r *sénatrices* 'seneddwragedd' benywaidd fel sail i greu ffurf luosog hollol newydd, sef *sénateur-ice-s* ('seneddwyr-agedd', tybed?!). Ymhellach, addesir rheolau cystrawennol er mwyn tansilio'r 'gwrywaidd generig', e.e. yn *les droits et libertés fondamentales* 'hawliau a rhyddid[au?] sylfaenol', cymhwysir yr hyn a elwir yn 'egwyddor agosrwydd' drwy newid ffurf wrywaidd ddisgwylidiedig yr ansoddair lluosog

(*fondamentaux*) yn un fenywaidd, er gwaetha'r ffaith bod yr enw cyntaf yn wrywaidd (bron fel pe bai carfan o siaradwyr Cymraeg yn dechrau arddel patrymau fel 'y bachgen a'r ferch ill dwy').

Gobeithio felly fod yr ymgais uchod i gynnig crynodeb hynod fras o hanes cymhleth y gwrywaidd 'niwtral' yn y Ffrangeg yn fodd o'n helpu i werthfawrogi pam y gall dealltwriaeth nifer o Ffrancwyr o ystyr 'iaith gynhwysol' fod yn dra gwahanol i'n hun ni Gymru Cymraeg (sydd hefyd yn agored i ddylanwadau o'r Saesneg). Mae i bob iaith ei hanes a'i sofraniaeth ei hun wrth gwrs, ac i siaradwyr pob iaith eu tensiynau mewnol unigryw, felly ymddengys y byddai datblygu rhyw ffurf gyfanfydol (neu 'ryngwladol') ar gynwysoldeb iaith yn anaddas ac yn rhwym o fethu.

G o brin fod peidio â sôn am ragenwau yn bosib mewn ysgrif ar iaith gynhwysol, felly trown at y rheini nesaf. Datblygiad arwyddocaol yng Nghymru o ran yr elfennau ieithyddol bychain ond grymus hyn yw arferiad cynyddol nifer o bobl broffesiynol, yn y Gymraeg fel yn y Saesneg, i ychwanegu eu rhagenwau at lofnodion ebost, neu eu cynnwys mewn cromfachau yn dilyn eu henwau ar blatfformau digidol megis Zoom a Teams. Teg dweud efallai y gall yr arfer led newydd hon daro'n chwithig neu'n ddryslyd i'r anghyfarwydd - wedi'r cyfan, ymateb greddfrol siaradwyr Cymraeg sy'n cyfarfod ei gilydd am y tro cyntaf yw ymboeni am ychydig p'un ai 'ti a thithau' neu 'chi a chithau' fydd hi, gyda'r canlyniad yn aml yn dibynnu ar ffactorau amrywiol megis oedran y siaradwyr, eu lleoliad a'u statws ymhlith eraill. Oni bai eich bod yn debyg i Lydia Thomas (mam yr anfarwol

Wali ar *C'mon Midffild*), neu'n defnyddio tafodiaith draddodiadol ardal Llanelli, go brin y byddwch yn cyfarch neb yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r trydydd person.

Yn ymarferol, ymddengys fod y rhagenwau trydydd person unigol ('ef' neu 'hi' yn draddodiadol) yn fwy tebygol o gael eu defnyddio amdanoch pan na fyddwch yn bresennol (nid bod hyn o angenrheidiol rwydd yn gyfystyr â 'siarad yn eich cefn'; dychmyger cyfeiriadau mynych at eich gwaith mewn cyfarfod proffesiynol, er enghraifft). Ond er gwaethaf hynny, ceir cryn gonsensws bellach fod dangos rhagenw neu ragenwau yr hoffech i'ch cydweithwyr eu defnyddio amdanoch yn cyfrannu at amgylchedd cynhwysol yn y gweithle.

Yng ngoleuni hyn oll felly, yr hyn sy'n ddi-ddorol i'r ieithydd yw'r cwestiwn hwn: pa ragenw(au) Cymraeg 'niwtral' sy'n bosib i'r sawl nad yw'n ymuniaethu â rhywedd gwrywaidd neu fenywaidd (rhywun 'anneuaidd' mewn geiriau eraill)? Mewn gwirionedd, nid oes ateb syml i'r cwestiwn hwn. Ar y naill law, o arddel safbwynt go geidwadol, gellir dweud nad oes traddodiad o ragenw trydydd person unigol diryw 'gweledig' (dof yn ôl at y term diwethaf). 'Nid oes rhagenw niwtral yn y Gymraeg' yw un ateb posib i'r cwestiwn uchod, felly (*er ei bod yn werth cofio am y rhagenw amheronol benywaidd 'hi' cyffredin - neu'r 'hi gwag' yn ôl rhai, sy'n wrthbwynt i'r 'gwrywaidd generig' ar sawl cyfrif, e.e. 'mae hi'n braf', 'mae hi'n hen bryd...', a'r geiriau a italeiddiwyd wedi agor y cromfachau hyn hyd yn oed, sy'n cyferbynnu'n amlwg ag il gwrywaidd amheronol y Ffrangeg, e.e. yn *il fait beau* 'mae (hi)'n braf' ac *il faut...* 'mae'n rhaid...').*

Fodd bynnag, o ymagweddu'n fwy rhyddfrydig at y cwestiwn, gellir cydnabod bod y rhagenw trydydd person lluosog 'nhw' (ar gyfer person unigol) wedi dechrau ennill ei blwyf fel rhagenw niwtral newydd yn y byd Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, mae'r 'nhw' unigol yn amlwg iawn yn nofel ddiweddaraf Llyr Titus, sef *Anfadwaith* (2023), a newydd gael lle blaenllaw hefyd mewn cyfres ddrama ar S4C, sef *Creisis* gan Anwen Huws.

Gan fod tueddiadau presennol y Gymraeg a'r Saesneg i'w gweld yn debyg i'w gilydd mewn ffordd felly, gadewch inni droi at ddatblygiad *they*, gan ystyried a oes sail hanesyddol i'r rhagenw hwn mewn gwirionedd. Darllen allweddol i bawb sy'n ymddiddori yn y maes hwn yw'r erthygl-adylygiad 'He, She, One, They, Ho, Hus, Hum, Ita' (2020) gan Amia Srinivasan, sy'n llawer mwy nag adolygiad llyfr cyffredin mewn gwirionedd; y mae hefyd yn drosolwg o'r modd yr arbrofwyd â niferoedd di-rif o ffurfiau (a'r rhan fwyaf ohonynt yn greadigaethau) y bwriedid iddynt weithredu fel rhagenwau niwtral o ran rhywedd.

Ar gyfer amlygu hen gyfyng-gyngor ymysg siaradwyr Saesneg, gofynna Srinivasan inni ystyried sut y byddem yn llenwi'r bwlch yn y frawddeg ganlynol: 'Everyone misplaces ____ keys.' Pa ragenw sy'n bosib yn dilyn y goddrych amhenodol ar y dechrau? Ystyrid *their* yn annerbyniol mewn gramadegau hyd nes yn lled

ddiweddar oherwydd bod disgwyl i ragenw gytuno â goddrych o ran rhywedd a rhif, ond roedd yn amlwg yn 'methu' ar yr ail gyfrif. Diddorol nodi bod *his and her* wedi derbyn anghymeradwyaeth ers 1866 o leiaf (cynnig a ystyrid yn 'anghynhwysol' heddiw p'run bynnag), a bod Srinivasan o'r farn fod *one* wedi ei ystyried yn 'too stuffy' ers canrifoedd gan ieithyddion a defnyddwyr y Saesneg fel ei gilydd. Ychydig iawn sydd wedi cymryd at y defnydd o *its* ar gyfer bod dynol hefyd, sef y rhagenw a ffafriai'r bardd Samuel Taylor Coleridge yn annisgwyl ddigon.

Yr hyn sy'n rhyfeddol er hynny yw bod y bwlch bach hwn, neu 'the missing word' fel y'i gelwir gan Dennis Baron, awdur *What's Your Pronoun?* (2020), wedi esgor ar greadigrwydd na ellir dim ond gwirionni arno. Yn wir, rhwng 1841 ac 1929, sy'n ymestyn dros naw degawd, ceir rhestr doreithiog gan Srinivasan sy'n dangos bod, ar gyfartaledd, tuag un rhagenw newydd wedi ymddangos bob blwyddyn am gyfnod o bron ddeng mlynedd a phedwar ugain. Mae pedwar o'r rhain ar ddiwedd teitl yr erthygl-adylygiad wrth gwrs, ond os ydych yn chwilfrydig, darllener y rhestr lawn a chwi a ryfeddwch! O ystyried helaethrwydd y ffurfiau felly, nid yw'n annisgwyl na lwyddodd y rhan fwyaf ohonynt i ymsefydlu yn yr iaith, ond diddorol nodi er hynny i rai ailymddangos yn y 1970au i gyd-fynd ag ail don o ffeministaeth a symudiadau LHDT, ac i *zie, hir, e a ve* gael eu defnyddio at ddibenion pobl â hunaniaethau anneuaidd yn benodol. Perthyn i ddiwedd y 1970au hefyd y mae ymddangosiad cyntaf y rhagenw *xe*, yn ogystal â datblygiad arwyddocaol arall, sef yr 'inexorable forward march of singular *they*' ys dywed Baron (a ddyfynnir hefyd gan Srinivasan).

Go brin y gellir synied am y datblygiad hwn fel un 'anhraddodiadol' yn y Saesneg

Ymddengys y byddai datblygu rhyw ffurf gyfanfydol ar gynwysoldeb iaith yn anaddas

er hynny, er gwaethaf ei statws gwarthnodedig - neu waharddedig, hyd yn oed - mewn rhai cyd-destunau gynt. Gan dynnu sylw at y ffaith fod cofnod cynharaf yr *Oxford English Dictionary* o'r *they* unigol yn dyddio'n ôl i 1375, a hynny yn rhamant o gerdd *William and the Werewolf*, mae'n anodd peidio â dod i'r casgliad fod y nodwedd ieithyddol hon yn rhan o draddodiad hirhoedlog. Fel y pwysleisia Srinivasan: 'Today, the singular "they" is more popular than ever in colloquial English, and has prompted grammarians, some more grudgingly than others, to conclude that the missing word has been with us all along.' Eto i gyd, rhaid cofio na ellir dadlau yn yr un modd am 'nhw' (neu'r 'hwy' llenyddol); nid yw'n

debygol fod 'traddodiad' o ddefnyddio 'nhw' unigol yn y Gymraeg (er bod 'pwy ydi'r nhw 'ma?' yn swnio'n fwy cyfarwydd na 'pwy ydyn nhw?'!), ond ymddengys ei fod wrthi'n datblygu i fod yn fwyfwy cyffredin yn ein hiaith drwy ddylanwad poblogrwydd y *they* unigol.

O ystyried yr holl greadigrwydd ac arloesi a welwyd yn y Saesneg ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth chwilio am 'y gair coll', sef rhagenw unigol niwtral, tybed pa ffactorau sydd i gyfrif am ddiffyg arbrofi tebyg yn y Gymraeg? Nid oes atebion gennyf i'r cwestiwn hwn, ond o addasu'r frawddeg fylchog Saesneg uchod i 'Mae rhywun yn cael ____ dd/diflasu', tybed ai synied am yr 'ei' gwrywaidd ('ei ddiflasu') fel math o ragenw niwtral a wneir yn achos enwau amhenodol fel 'rhywun' ac 'unrhyw un'? Mae ystyriaeth debyg yn codi hefyd yn achos y 'pawb' ymddangosiadol luosog; 'pawb a'i fys lle bo'i ddolur', medd y ddihareb, a *Pawb a'i Farn* yw'r rhaglen hirhoedlog honno ar S4C.

Ond wedi dweud hynny, un awgrym diddorol a wneir yn adroddiad Awbery yw bod modd i'r gwahaniaeth rhwng cenedl enwau a rhywedd fod yn amwys weithiau fel y gwelir, er enghraifft, mewn brawddeg fel 'Dyna blentyn da sy'n garedig tuag at ei thad'. Er bod y diffyg treigladau yn 'da' yn dangos mai enw gwrywaidd yw 'plentyn' bob amser o ran ei genedl, mae'r rhagenw ôl-gyfeiriol 'ei' a'r treigladau llaes dilynol er hynny yn awgrymu'n gryf fod rhywedd benywaidd y ferch yn drech na chenedl yr enw 'plentyn' yn ail hanner y frawddeg. Mae i amwysedd o'r fath yn amlwg ei hyblygrwydd gramadegol, felly tybed a chwaraeodd hynny ryw ran fach yn niffyg pryder ymddangosiadol y gymuned Gymraeg am ragenwau niwtral newydd?

Yr argraff a geir felly yw nad yw'r traddodiad o ysgrifennu a siarad Cymraeg yn cynnig rhyw lawer o ysbrydoliaeth inni ar gyfer datblygu rhagenwau niwtral newydd sydd â rhyw sail hanesyddol iddynt o fewn ein hiaith. Ond amynedd a phwyll biau hi yn ôl Ellis Wynne - onid wyf wedi gwneud cam dybryd â'r hen aeg hyd yma drwy anwybyddu'n llwyr fath arbennig o ragenwau sydd wedi bod yn rhan greiddiol o'r Gymraeg ers iddi ymffurfio o'r Frythoneg, mewn gwirionedd? Teg dweud er hynny nad yw'r rhagenwau hyn yn amlwg iawn i neb (ac eithrio ieithyddion sy'n chwilio amdanynt, wrth gwrs). Yn wir, maent yn wahanol i'r holl ffurfiau eraill a grybwyllwyd uchod gan nad rhagenwau 'gweledig' ydynt, eithr rhai 'anweledig'. Term mwy ieithyddol amdanynt er hynny fyddai 'rhagenwau gwag' (*null pronouns* yn Saesneg) - heb 'lawnder gweledig' felly, a yw'n syndod o fath yn y byd eu bod hefyd yn elfennau anghofiedig?

Beth bynnag am hynny, gan fod 'rhagenw gwag' (neu un anweledig) bron yn amhosib ei ddarlunio, ffordd symlach o'i ddirnad yw drwy ddisgrifio'r broses fel 'hepgor rhagenw'. Cymerer y ddwy frawddeg ganlynol, er enghraifft: 'Mae Ceri wedi cyrraedd. Gorffennodd y gwaith yn gynnar ac mae'n hapus fel y gog.' Yn amlwg, does dim rhagenwau yn dilyn y berfau 'gorffennodd' na 'mae', felly heb ei nabod, gallai Ceri fod yn ddyd, yn fenyw

neu'n anneuaidd. Mae'n amlwg felly fod dull y rhagenw gwag (neu hepgor rhagenw) yn cynnig strategaeth arall o osgoi y dewis deuaidd (rhwng 'ef' a 'hi'), ond yn wahanol i 'nhw', nid oes raid gadael y trydydd person unigol y tro hwn. Ond wedi dweud hynny, nid yw'r ffordd hon yn fêl i gyd chwaith: fel y rhybuddiodd Awbery yn ei hadroddiad hithau, dim ond yn safle'r goddrych (*subject*), h.y. yr un neu'r peth sy'n cyflawni'r weithred, y mae modd hepgor y rhagenw mewn gwirionedd. Ymddengys felly y byddai'n rhaid cyfuno'r 'rhagenw gwag' â rhagenw arall (boed ddeuaidd neu niwtral). Ef/0 fyddai fy rhagenwau i, er enghraifft.

O fynd wedyn at safle'r gwrthrych (*object*), sef y sawl neu'r peth sy'n derbyn y weithred, nid yw hepgor y bwlch canlynol yn opsiwn: 'Gwelais i __'. 'Pwy?' fyddai'r ymateb yn sicr. Er gwaethaf hynny, hyd y gallaf farnu, mae un opsiwn arall ar gyfer cyfleu'r trydydd person unigol heb gyfeirio at rywedd, sef drwy ddefnyddio cystrawennau fel 'Fe'i/Mi'i gwelais __' a 'Dyna'r athro a'i hanfonodd __ yma'. Er ei bod yn bosib ychwanegu 'ef' neu 'hi' yn y bylchau, nid yw hyn yn orfodol gan fod yr 'i' (y rhagenw mewnol gwrthrychol a bod yn dechnegol) eisoes wedi cyfleu'r gwrthrych. Yn dechnegol, ceir 'i' gwrwywaidd ac 'i' benywaidd, ond o hepgor rhagenw yn y blychau, mae'n amhosib gweld gwahaniaeth rhyngddynt gan nad yw'r un ohonynt yn achosi treigladau i'r ferf a chan fod 'h' yn arferol ar ddechrau berf sy'n dechrau â llafariad yn dilyn y ddwy 'i' (yn yr iaith safonol, o leiaf). Er y byddai naws ffurfiol i ddefnydd rheolaidd o'r cystrawennau hyn ar lafar, gellir er hynny ystyried yr 'i' bach hwn yn rhagenw niwtral defnyddiol arall - cyhyd ag y cedwir y blychau ar y diwedd yn wag, wrth gwrs! Mae'n werth nodi hefyd nad oes ystyr rhagenw i 'Fe'/'Mi' o flaen berfau bellach, ond petai'r cyntaf yn peri pryder, byddai'n gwbl bosib creu 'geirynnau rhagferfol' niwtral i'r Gymraeg - beth am 'He'i/Ho'i gwelais', yn ddbynnol ar eich tafodiaith, er enghraifft (boed hynny'n berthnasol ai peidio i hunaniaeth y goddrych)?

Gobeithio felly fy mod wedi dangos uchod fod gan y Gymraeg hithau wedi'r cyfan batrymau traddodiadol y gellid eu haddasu at bwrpas datblygu iaith fwyfwy cynhwysol (hyd yn oed os yw'r rhagenwau 'gwag' yn anodd eu gweld a'r rhai 'mewnol' yn cuddio). Ond cyn cloi'r ysgrif hon, rhaid pwysleisio nad 'nhw' unigol yw'r unig ddatblygiad newydd a welwyd yn y Gymraeg yn ddiweddar o safbwynt rhagenwau niwtral. Mewn blogiad Saesneg gan Luke Blaidd (ar 15 Medi 2022) ar wefan LGBTQ Cymru o'r enw 'Rhagenwau Rhyfedd - The Wonderful World of Weird Welsh Pronouns', ceir yr argraff fod sawl aelod neu grŵp Cymraeg o fewn y gymuned LHDT+ wedi bod yn ddyfeisgar dros y blynyddoedd diwethaf, nid yn unig yn creu rhagenwau newydd, ond hefyd yn cynnig cyfuniadau newydd o ragenwau, gan awgrymu rhai rheolau treiglo newydd i'r iaith, hyd yn oed.

Enghraifft o ragenw newydd nad yw'n addasiad o unrhyw ragenw Saesneg yw 'w', ac aeth hyrwyddwyr y ffurf niwtral hon ati i gyflwyno deiseb ym Mai 2020 >

yn gofyn i Lywodraeth Cymru gydnabod y rhagenw yn swyddogol. Gwrthodwyd y cais er hynny gan y barnwyd nad oedd Senedd Cymru na Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am esblygiad naturiol geiriau newydd (safbwynt tra gwahanol i'r hyn a welwyd yn Senedd Ffrainc yn ddiweddar felly). Beth bynnag am hynny, awgrymodd y deisebwyr ddefnyddio '-w' fel terfyniad arddodiadol gydag 'w' ('arnw w' felly), ond ar gyfer y rhagenwau meddiannol, y cynnig oedd defnyddio 'ei' heb dreiglo, e.e. 'ei cath' ac 'ei taid'. O fewn y system newydd hon felly, mae'n werth nodi y byddai geiriau sy'n dechrau ag 'g', 'b', 'd', 'll', 'm' a 'rh' yn fwy cyfarwydd gan mai diffyg treigladau sy'n arferol yn dilyn 'ei' benywaidd hefyd. Wn i ddim a fyddai hyn yn creu cymhlethdodau, ond tybed ai cyfrannu tuag at adlewyrchu hylifedd eu rhywedd a wnâi'r cymysgedd hwn o ffurfiau niwtral newydd a rhai mwy cyfarwydd (ag arlliw benywaidd iddynt) yn nhyb rhai defnyddwyr 'w'?

Heb fanylu'n ormodol, mae'n werth nodi'r cyfuniadau eraill a gyflwynir gan Blaidd. Ar y naill law, ceir rhagenwau sy'n bodoli eisoes gyda rheolau treiglo gwahanol, sef 1. Nhw/Ei, gyda'r treigladau trwynol (TT) yn dilyn 'ei', e.e. 'ei nghath', a 2. Hw/Ei, gyda'r TT yn dilyn yr ail eto. Ar y llaw arall, mae rhagenwau hollol newydd yn ymddangos yn y cyfuniadau, sef 1. Hw/Ei (gyda'r TT yn dilyn yr ail) a 2. Sê/Sir/Ei (gyda'r TT yn dilyn y diwethaf eto). Disgrifia Blaidd 'sê'/'sir' fel ymgais i leoleiddio'r rhagenwau ze a zir o'r Saesneg,



Amia Srinivasan

felly mae'n amlwg fod rhai o'r ffurfiau uchod yn fwy unigryw Gymreig na'i gilydd, ond mae'n rhy gynnar i farnu a yw hyn yn debygol o effeithio ar eu llwyddiant i ennill eu plwyf yn yr iaith ai peidio.

I gloi, bwriad yr ysgrif hon oedd codi cwr y llen ar y posibiladau y mae Cymraeg cynhwysol yn eu cynnig, ynghyd ag archwilio datblygiadau gramadegol diweddar. Felyn achos unrhyw newidiadau ieithyddol (sy'n aml yn gymdeithasol ac yn wleidyddol hefyd), mae ymagweddau tuag atynt yn rhwym o amrywio, ond ceisiwyd dangos yma nad yw tensiynau rhwng siaradwyr yn unigryw i'r Gymraeg mewn unrhyw fodd. Yn wir, hawdd y gallai'r Ffrancwr heddiw eiddgeddu wrth y gymuned Gymraeg o ran y modd y

cyflwynwyd yn ddiweddar newidiadau graddol ond arwyddocaol i'n hiaith heb ormod o strancio di-fudd. Hyd y gwelaf, y newid cyfoes mwyaf arwyddocaol yw lledaeniad 'nhw' unigol, a mentraf gynnig mai hwn fydd yr un mwyaf hirhoedlog o blith yr holl ddatblygiadau rhagenwol Cymraeg y cyfeiriwyd atynt yma. Wedi dweud hynny, er bod 'nhw/eu' yn gyfuniad cyffredin, mae'r ffaith fod sawl aelod o'r gymuned LHDC+ wedi cynnig cyfuniadau amgen yn awgrymu nad yw 'eu' unigol meddiannol yn taro deuddeg yn llwyr.

Tra gallaf gydymdeimlo â'r rheini sy'n bryderus fod 'nhw' unigol yn arwydd arall o dra-arglwyddiaeth y Saesneg 'ryngwladol' a'r diwylliant Eingl-Americanaidd ar sofraniaeth ein hiaith leiafrifedig, efallai mai synied amdano fel offeryn cyfleus ar

gyfer datblygu iaith gynhwysol ar hyn o bryd y dylid ei wneud. Hynny yw, mae'n prynu amser i'r gymuned Gymraeg – gan gynnwys aelodau anneauidd – ar gyfer ystyried yn ddwys a thrafod dulliau eraill o ddatblygu ffurfiau niwtral a all dynnu'n fwy ar deithi traddodiadol yr iaith. Gan nad oes gan siaradwyr ieithoedd eraill fel y Ffrangeg a'r Sbaeneg yr opsiwn hwn (gan fod ffurfiau benywaidd a gwrywaidd ar gyfer 'nhw' hefyd), mae'n bosib fod ffræo mwy tanbaid ymhllith y cymunedau iaith hynny yn deillio'n rhannol o absenoldeb 'ffurf wrth gefn' fel ein hun ni, felly mae lle i ddiolch am hyblygrwydd y Gymraeg ar sawl cyfrif.


Rhaid pwysleisio yn olaf nad yw troi at 'draddodiadau' ysgrifenedig a llafar y Gymraeg fel y cyfryw yn gyfystyr â bod yn geidwadol. Er enghraifft, gallai cyflwyno mwy o 'ragenwau gwag' (neu 'ragenwau anweledig', os mynnir) i'n hiaith, boed wrth ysgrifennu'n unig neu ar lafar hefyd, arwain at amrywiadau newydd cyffrous – a go brin y byddai dim hen ffasiwn am 'Fy rhagenwau: nhw/0!' I'r perwyl hwnnw, mae'n destun calondid bod aelodau Cymraeg o'r gymuned LHDC+ eisoes wedi bod yn arbrofi ag adnoddau'r iaith at ddiben datblygu Cymraeg mwyfwy cynhwysol. Yn yr ysbryd hwnnw felly, gobeithio y bydd y posibiladau newydd a archwiliwyd yn yr ysgrif hon yn cynnig ysbrydoliaeth bellach i ddatblygu Cymraeg gwirioneddol gynhwysol mewn ffordd sy'n dathlu'r amrywiaeth a geir rhwng ein hieithoedd. □

Ar Fawrth y seithfed eleni – Diwrnod y Llyfr, eto fyth – disgynnais i bydew o anobaith. Y bore hwnnw es i'r siop elusen leol i brynu tebot, gan mai (yn absenoldeb yr hiddiflanedig Woolworths) dyna'r lle gorau bellach i gael gafael ar daclau cegin am bris rhesymol. Yn reddfod a heb feddwl, es yn syth at y llyfrau ail-law, a chanfod yn eu plith gopi o *Llwydnos yr Enaid*. Mae gweld eich gwaith eich hun mewn siop elusen yn ergyd i bob awdur, wrth gwrs, ond fel arfer, mae modd lleddfu'r boen drwy ddamcanu mai ymadawiad prudd y perchennog gwreiddiol arweiniodd at leoliad truenus y gyfrol. Bodiais drwy'r llyfr yn bruddglwyfus am foment cyn sylweddoli fod y flaendalen wedi'i rhwygo allan. Roedd y dudalen lle nodir enw'r perchennog, neu – yn waeth fyth – llofnod yr awdur, yn ddim ond rhimyn o rwyg blêr a brysiog. Yn fy nghymuned fy hun, bodolai rhyw gachgi oedd am waredu ei gartref o'm nofel, ac aeth cyn belled â dinistrio ei enw a'm 'cofnod gorau' innau rhag i mi ei adnabod o a'i fandaliaeth. Gadewais mewn trallod, ac nid af ar gyfyl y bali siop byth eto, waeth faint fy angen am debot a f'atgasedd o de tramp.

Wedi dychwelyd adref mewn gwewyr, cefais wybod ar ebost, gan ddiethryn o'r enw Jeff, fod fy nghefnider Emrys wedi marw. Emrys druan, er mai prin roeddwn i'n ei weld ac yntau'n byw yn yr Amwythig ers deugain mlynedd a rhagor. Hen lanc

Pylp fficsion

Lloffion y llenor Derfel Clarke



ydoedd, ac wrth ddychmygu ei gynhebrwng unig, penderfynais mai gweddus fyddai i mi ddangos wyneb, fel petai.

Ar ddiwrnod yr angladd, synnais weld yr amlogfa'n orlawn, ac yn ystod y gwasanaeth, nodais, gyda phleser odiaeth, fod ambell i faswr gwych ymysg y gal-arwyr, er nad oeddent yn rhy gyfarwydd

â geiriau 'Calon Lân'. Cafodd yr hen Emrys wasanaeth boddhaol dros ben a chefais innau, fel pawb arall, wahoddiad i'r tŷ am de cynhebrwng. A pham lai, meddyliais – efallai y cawn baned dda a sbario prynu brechdan gyda'm petrol ar y ffordd adref.

Wrth adael yr amlogfa, a gweld pawb yn cydymdeimlo â gwr canol oed ac unig, sylweddolais mai hwn oedd Jeff, a'i fod, o bosib (wnes i ddim holi), yn gymar i Emrys. Wel, wel, meddyliais, gyda'r gair 'hoiw' yn troelli drwy fy mhen, gan ei fod yn air mor addas ar gyfer Emrys, ac yntau wastad mor sionc a chymen. Emrys druan yn gelain, wedi'n gadael cyn ei amser. A finnau'n dal i rygnu ymlaen, gyda 'mhen moel a'm ceubal llipa.

Roedd Jeff wedi paratoi gwledd ragorol ar ein cyfer, a choctels hefyd, gan mai dyna oedd dymuniad Emrys. Gan fy mod yn gyrru, cefais innau goctel dialcohol, oedd yn ddigon derbynol, er bod ei flas braidd yn gymhleth ar gyfer fy nant gwerinol. Roedd Jeff yn awyddus i mi dderbyn llyfrau

Cymraeg Emrys: 'It would break my heart to see them all pulped ...' meddai.

Wrth ystyried tair silff o lyfrau Cymraeg mewn stydi yn yr Amwythig, fe'm lloriwyd â'r un iselder ag a brofais mewn siop elusen bythefnos ynghynt. Unwaith eto, yn eu plith, roedd copi o *Llwydnos yr Enaid* ac, er mawr syndod, fy nghyfrif gyntaf, *Henffych Fore!* Bron nad oeddwn wedi anghofio amdani: hen waith amrwd ac anaeddfed, yn cynnwys safbwyntiau anffasiynol, os nad cwbl annerbyniol erbyn hyn. Er lles fy nghydwybod a'm henw da, bron na fynwn iddi ddihoeni'n saff ar silff elusennol yn Lloegr. Serch hynny, gwaredais Jeff o'r holl lyfrau.

Efallai mai fy nghanhadaeth bellach yw achub llyfrau Cymraeg, er nad oes gennyf le iddynt. Cânt eu gwasgaru ar fy nghadeiriau gweigion a than fy myrddau gorlawn. Ac yn dilyn fy angladd innau, cânt eu pecynnu a'u hanfon i'w mathru'n seitan. Efallai na fydd yr un llyfr Cymraeg yn bodoli maes o law, gyda llai o arian i'w cyhoeddi a'n Llyfrgell Genedlaethol, hyd yn oed, yn mynd â'i phen iddi.

Ar fy ffordd i'r car gyda'r boc olaf, galwodd rhywun arnaf: 'Derfel?' Fy nghyfnither, Olwen, yn sleifio smôc y tu allan i'r portsh. Wyddwn i ddim ei bod yno. 'Wnes i mo dy nabad ti yn y Crem – bobol, ti 'di torri ...' Roedd hithau ymhell o fod yn lluniaidd, yn ei hanorac biws, ddi-siâp, ond mor gwrtais ag y medrwn, atebais yn syml, 'Mae'r holl fyd wedi torri, Olwen.'